Crynodeb o'r cynnig

Cynnig i wahardd busnesau rhag gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed yng Nghymru yw hwn. Y trothwy bwriadedig ar gyfer cynhyrchion yw diodydd sy'n cynnwys mwy na 150 mg o gaffein fesul litr, heb gynnwys te a choffi cyffredin. Nod y polisi yw lleihau'r defnydd o'r cynhyrchion hyn ymhlith plant a'u diogelu rhag canlyniadau niweidiol posibl i'w hiechyd corfforol, eu llesiant meddyliol, eu cwsg, eu hymddygiad a'u haddysg.

Cwestiynau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1. **Sut mae'r pum ffordd o weithio wedi llywio'r broses o ddatblygu'r polisi hwn neu'r ddeddfwriaeth hon a'r ffordd y'i rhoddir ar waith?**

   Datblygwyd y cynnig yn unol â'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n dilyn dull ataliol drwy geisio lleihau niwed posibl sy'n gysylltiedig â defnydd plant o ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein. Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar welliannau hirdymor i iechyd a llesiant y boblogaeth ac mae wedi'i integreiddio ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwysau iach, iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r broses ddatblygu wedi cynnwys cydweithio â chyrff iechyd y cyhoedd, awdurdodau lleol, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector, ochr yn ochr â chynnwys pobl drwy ymgynghori â'r cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

2. **Pwy ydych chi wedi cydweithio â nhw a'u cynnwys wrth ddatblygu'r cynnig, ac er mwyn deall ei effeithiau, gan gynnwys ei effeithiau ar bobl, aelwydydd, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector (e.e. drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol neu ymgynghori â'r cyhoedd?)**

   Casglwyd tystiolaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022, yr alwad am dystiolaeth yn 2024, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i dargedu, a gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a wnaed gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio'r broses o ddatblygu'r cynnig a'r asesiad o'i effeithiau tebygol ar blant a phobl ifanc, aelwydydd, busnesau, awdurdodau gorfodi a grwpiau eraill yr effeithir arnynt, yn ogystal â'r cwmpas, y broses weithredu a'r dull gorfodi arfaethedig.

3. **Sut mae'r polisi'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chanlyniadau llesiant hirdymor?**

   Mae'r cynnig yn cefnogi datblygu cynaliadwy drwy ddull ataliol o ymdrin ag iechyd y cyhoedd. Bwriedir iddo gyfrannu at amgylcheddau bwyd iachach i blant a phobl ifanc ac mae'n bosibl y bydd yn cefnogi gwell canlyniadau iechyd a llesiant dros amser. Drwy geisio cyfyngu ar allu plant i gael gafael ar ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein, mae'r polisi'n cyd-fynd ag ymdrechion ehangach i wella iechyd y

boblogaeth, atal afiechyd yn y dyfodol a chefnogi llesiant hirdymor cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

4. **Beth yw'r effeithiau allweddol (effeithiau cadarnhaol a negyddol, a chyfleoedd) mewn perthynas â phob un o'r saith nod llesiant?**

Cymru Lewyrchus: Gall helpu i sicrhau poblogaeth iachach a lleihau costau hirdymor afiechyd ataliadwy. Mae'n bosibl y bydd manwerthwyr yn mynd i rai costau yn sgil rhoi'r polisi ar waith a chydymffurfio ag ef. Gall y polisi annog gweithgarwch i hyrwyddo dewisiadau amgen iachach.
Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith sylweddol ar gyflogaeth yn y sectorau yr effeithir arnynt. Mae'n bosibl y bydd manwerthwyr yn mynd i rai costau untro yn sgil rhoi'r polisi ar waith a chydymffurfio ag ef, ond dim ond i werthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed y bydd y cyfyngiad yn berthnasol, ac ni ddisgwylir iddo effeithio ar hyfywedd cyffredinol na lefelau cyflogaeth busnesau.

Efallai y bydd cyfraniad cadarnhaol at ddeilliannau addysgol. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn dangos cysylltiadau rhwng yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein ac amhariad ar gwsg, y gallu i ganolbwyntio ac ymddygiad. Drwy gyfyngu ar allu plant i gael gafael ar y cynhyrchion hyn, gall y cynnig helpu i wella llesiant plant ac, yn anuniongyrchol, eu gallu i ymgysylltu â'u haddysg a'u dysgu.

Cymru Gydnerth: Ni nodwyd effeithiau uniongyrchol sylweddol.

Cymru Iachach: Disgwylir i'r polisi wneud y cyfraniad cryfaf at y nod hwn drwy gyfyngu ar allu plant i gael gafael ar ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein a chefnogi ymddygiadau iachach a gwell canlyniadau iechyd dros amser.

Cymru sy’n Fwy Cyfartal: Gall y polisi helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, gan fod plant a phobl ifanc mewn cymunedau â mwy o amddifadedd yn fwy tebygol o yfed diodydd egni a chael y budd mwyaf o gyfyngiad ar eu gallu i gael gafael arnynt.

Cymru o Gymunedau Cydlynus: Gall y polisi gyfrannu at amgylcheddau lleol iachach a chefnogi llesiant cymunedol ehangach.

Cymru â Diwylliant Bywiog Lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu: Effaith uniongyrchol gyfyngedig. Achubir ar gyfleoedd i roi canllawiau, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Cymru sy’n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang:

Mae'r polisi'n cefnogi dull ataliol o ymdrin ag iechyd y cyhoedd drwy gyfyngu ar allu plant i gael gafael ar ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein a hyrwyddo amgylcheddau bwyd iachach. Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion ehangach mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd i wella iechyd a llesiant plant a lleihau niwed ataliadwy.

5. **Pa dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau o dan y Ddeddf, sydd wedi llywio'r polisi, a sut y bydd yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau parhaus?**

   Mae'r polisi wedi cael ei lywio gan dystiolaeth ynghylch defnydd plant o ddiodydd egni a'r effeithiau cysylltiedig ar egni, ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024, cyngor gan randdeiliaid ym maes iechyd y cyhoedd, a chanfyddiadau'r Asesiad Effaith Integredig. Mae ystyriaeth hefyd wedi cael ei rhoi i ddatblygiadau polisi perthnasol ledled y DU a fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd gwaith parhaus i fonitro'r ffordd y caiff y polisi ei roi ar waith, gweithgarwch gorfodi a thystiolaeth a ddaw i'r amlwg yn llywio'r broses o ddatblygu ac adolygu'r polisi yn y dyfodol.